# Cyfathrebu'r Cynulliad - Allgymorth

## Yr arolwg o'r Cwricwlwm, Asesu a Chymwysterau

## Crynodeb

### Cefndir

Mae Tîm Cyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gweithio gyda phwyllgorau'r Cynulliad i gynnwys pobl Cymru yng ngwaith y Cynulliad.  Rydyn ni'n gwneud hyn drwy greu cysylltiadau uniongyrchol rhwng y materion sy'n bwysig i bobl a gwaith y pwyllgorau, a thrwy ddarparu cyfleoedd wedi'u teilwra i bobl allu dweud eu dweud.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r arolwg o'r Cwricwlwm, Asesu a Chymwysterau, a gynhaliwyd gan y tîm Allgymorth.

### Methodoleg

Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran ateb ystod o gwestiynau a oedd yn ymwneud â phwysigrwydd sgiliau llythrennedd, y sgiliau a'r pynciau y dylai pobl ifanc eu dysgu yn yr ysgol, eu barn ynghylch Bagloriaeth Cymru ac a yw'r cymwysterau sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd yn addas er mwyn dod o hyd i waith.

Lluniwyd un arolwg â'r bwriad o dargedu plant a phobl ifanc rhwng 14 a 19 oed.

### Codi Ymwybyddiaeth

Bu staff y Cynulliad yn hyrwyddo'r arolwg ymysg grwpiau perthnasol a oedd yn ymweld â'r Senedd, ac ar ymweliadau addysg, a phan fu cynrychiolwyr y Cynulliad mewn sioeau haf.

# Ystadegau Allweddol

**1177** Cyfanswm nifer yr ymatebion i'r arolwg

# Crynodeb Daearyddol o'r Ymatebion

**Cod post cartref ymatebwyr yr arolwg**

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 754*

**CF: 299** *(Canol De Cymru)*

**CH: 11** *(Gogledd Cymru)*


**LL: 178** *(Gogledd Cymru / Canolbarth a Gorllewin Cymru)*

**LD: 6** *(Canolbarth a Gorllewin Cymru)*

**NP: 13** *(Dwyrain De Cymru)*

**SA: 247** *(Gorllewin De Cymru / Canolbarth a Gorllewin Cymru)*

**SY: 32** *(Canolbarth a Gorllewin Cymru)*




# Crynodeb o'r Ymatebion

**Cwestiwn 1: A ydych yn credu bod sgiliau darllen ac ysgrifennu yn bwysicach na'r sgiliau eraill yr ydych yn eu hennill yn yr ysgol? Pam?**

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 1,175*


- Ydw: **71.91% (845)**
- Nac ydw: **18.80% (221)**
- Ddim yn gwybod: **9.27% (109)**




## Sylwadau

- Dywedodd 742 (84.5%) o'r bobl ifanc fod sgiliau darllen ac ysgrifennu yn sylfaen ar gyfer pob sgìl arall a'u bod yn effeithio ar eich llwyddiant yn y dyfodol (boed ym myd gwaith neu'r byd academaidd);
- Roedd 58 (6.6%) o'r ymatebwyr yn dadlau bod yr holl sgiliau a gawsant yn sgil eu haddysg yr un mor bwysig a darllen ac ysgrifennu;
- Roedd 57 (6.5%) o'r bobl ifanc yn teimlo bod sgiliau eraill (e.e. llythrennedd ariannol, cyfathrebu a TGCh) yn bwysicach yn yr oes ddigidol na sgiliau llythrennedd traddodiadol;
- Dywedodd 8 (0.91%) o'r ymatebwyr fod sgiliau llythrennedd yn galluogi pobl i gyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd mewn cymdeithas;
- Roedd 7 (0.79%) o'r bobl ifanc yn dadlau mai dim ond i'r graddau y maen nhw'n berthnasol i'ch dewis llwybr gyrfa y mae sgiliau llythrennedd yn bwysig;
- Roedd 3 (0.34%) o'r ymatebwyr yn teimlo nad oes angen sgiliau llythrennedd ar gyfer llawer o swyddi yn yr oes ddigidol sydd ohoni;
- Dywedodd 2 (0.22%) o'r bobl ifanc fod pobl yn cymryd y sgiliau llythrennedd sylfaenol hyn yn ganiataol yn aml; ac
- Roedd 1 (0.11%) o'r ymatebwyr yn dadlau na all y wladwriaeth ddibynnu ar rieni i addysgu'r sgiliau llythrennedd sylfaenol hyn i'w plant.

**Cwestiwn 2 – A oes unrhyw beth yr ydych yn ei astudio yn yr ysgol nawr, neu rydych wedi ei astudio yn y gorffennol, na ddylai fod yn y cwricwlwm bellach?**




## Cwestiwn 3 – Yn eich barn chi, a oes rhywbeth y dylid ei ddysgu yn ysgolion nad yw’n cael ei ddysgu ar hyn o bryd?



**Cwestiwn 4 – Yn eich barn chi, mae / roedd Bagloriaeth Cymru:**

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 1,108*

- Yn un o’r cyrsiau mwyaf defnyddiol: **10.28% (114)**
- Yn fwy defnyddiol na’r rhan fwyaf o gyrsiau: **13.98% (155)**
- Yn fwy defnyddiol na rhai cyrsiau: **35.55% (394)**
- Yn llai defnyddiol na chyrsiau eraill: **40.16% (445)**




### Sylwadau

- Dywedodd 289 o'r bobl ifanc fod Bagloriaeth Cymru wedi eu helpu i ddysgu amrywiaeth o sgiliau craidd (e.e. gwaith grŵp ac adeiladu tîm, cyfathrebu a siarad yn gyhoeddus);
- Roedd 44 o'r ymatebwyr yn dadlau nad yw Bagloriaeth Cymru yn ddefnyddiol gan nad yw pob prifysgol yn ei derbyn (yn enwedig y rhai y tu allan i Gymru);
- Roedd 214 o'r bobl ifanc yn teimlo bod Bagloriaeth Cymru yn amherthnasol fel cymhwyster ac nid yw'n ddefnyddiol;
- Dywedodd 9 o'r ymatebwyr fod Bagloriaeth Cymru yn rhy hawdd i gyfiawnhau dyfarnu cymhwyster Safon Uwch;
- Roedd 148 o'r bobl ifanc yn teimlo bod Bagloriaeth Cymru yn ddefnyddiol o safbwynt ei gwerth mewn pwyntiau UCAS wrth wneud ceisiadau i brifysgolion, ac mae'n rhoi cymhwyster prifysgol / coleg cydnabyddedig i'r disgybl;
- Roedd 45 o'r ymatebwyr yn dadlau fod gweithio tuag at gymwyster Bagloriaeth Cymru yn cymryd gormod o amser;
- Dywedodd 13 o'r bobl ifanc mai dim ond disgyblion sydd am symud ymlaen i ddilyn cyrsiau addysg uwch neu addysg bellach sy'n cael budd o Fagloriaeth Cymru;
- Roedd 7 o'r ymatebwyr yn teimlo bod Bagloriaeth Cymru yn eu galluogi i ddysgu rhagor am Gymru, diwylliant Cymru a'i gwleidyddiaeth;
- Roedd 65 o'r bobl ifanc yn dadlau bod y pynciau eraill yr oeddent yn eu hastudio yn bwysicach na Bagloriaeth Cymru;
- Roedd 14 o'r ymatebwyr yn teimlo bod gwerth Bagloriaeth Cymru yn dibynnu ar ba faes neu bwnc yr oedd person ifanc am fynd ymlaen i'w astudio;
- Dywedodd 4 o'r bobl ifanc fod llawer o sgiliau y maent yn eu dysgu wrth ddilyn Bagloriaeth Cymru yn rhai yr oeddent wedi'u datblygu eisoes drwy bynciau eraill;
- Roedd 22 o'r ymatebwyr yn dadlau y gellid addysgu Bagloriaeth Cymru yn well;
- Roedd 7 o'r bobl ifanc yn teimlo y dylai Bagloriaeth Cymru fod yn bwnc dewisol;
- Dywedodd 12 o'r ymatebwyr fod Bagloriaeth Cymru wedi dysgu sgiliau iddynt y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt wrth ddethol ceisiadau swyddi i greu rhestr fer o ymgeiswyr.

**Cwestiwn 5 – A ddylai Bagloriaeth Cymru fod ymysg y prif ffyrdd o roi'r sgiliau cywir i bobl ifanc i ddod o hyd i'w dewis swydd, neu i fynd i'w dewis goleg neu brifysgol?**

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 1,137*

- Dylai: **45.91% (522)**
- Na ddylai: **24.45% (278)**
- Ddim yn gwybod: **29.63% (337)**




### Sylwadau

- Roedd 111 o'r bobl ifanc yn cytuno â'r cwestiwn, gan ddweud bod Bagloriaeth Cymru yn cynnwys amrywiaeth o sgiliau pwysig sydd eu hangen ar ddisgyblion i lwyddo;
- Roedd 54 o'r ymatebwyr yn teimlo, gan fod Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster cydnabyddedig, dylid ei defnyddio fel ffordd o roi'r sgiliau i bobl ifanc sydd eu hangen arnynt i weithio neu i fynd i'r brifysgol / coleg;
- Roedd 45 o'r bobl ifanc yn anghytuno â'r cwestiwn, gan ddweud nad yw Bagloriaeth Cymru yn bwnc y mae'n ddefnyddiol ei astudio;
- Roedd 48 o'r ymatebwyr yn cytuno bod pynciau eraill yr un morr bwysig, neu'n fwy pwysig, o ran rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar bobl ifanc i ymuno â'r gweithlu neu fynd i'r brifysgol / coleg;
- Roedd 30 o'r bobl ifanc yn teimlo bod Bagloriaeth Cymru yn bwnc y mae'n ddefnyddiol ei astudio;
- Roedd 25 o'r ymatebwyr yn dadlau bod Bagloriaeth Cymru yn helpu myfyrwyr i wneud penderfyniadau am eu dyfodol;
- Dywedodd 19 o'r bobl ifanc fod Bagloriaeth Cymru yn gwrs a chymhwyster hawdd i bobl ifanc sicrhau'r sgiliau angenrheidiol hyn;
- Roedd 15 o'r ymatebwyr yn teimlo y gellid gwella Bagloriaeth Cymru i roi rhagor o brofiad ymarferol i ddisgyblion o'r sgiliau sydd eu hangen i weithio a / neu fynd i'r brifysgol / coleg;
- Roedd 14 o'r bobl ifanc yn dadlau mai dim ond i'r graddau yr ydych am barhau i astudio a / neu weithio yng Nghymru y gall Bagloriaeth Cymru eich helpu;
- Dywedodd 10 o'r ymatebwyr y dylai Bagloriaeth Cymru fod yn bwnc dewisol;
- Roedd 4 o'r bobl ifanc yn teimlo y byddai Bagloriaeth Ryngwladol yn fwy defnyddiol yn y cyd-destun hwn;
- Roedd 3 o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cwestiwn, am y rheswm nad yw pob cyflogwr, coleg na phrifysgol yn y DU yn cydnabod y cymhwyster.

**Cwestiwn 6 – A wnaeth eich ysgol neu'ch cynghorwr gyrfaoedd ddweud wrthych am y gwahanol gymwysterau galwedigaethol y gallwch eu hastudio, fel NVQs?**

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 1,128*

- Do: **28.63% (323)**
- Naddo: **48.04% (542)**
- Ddim yn gwybod: **23.31% (263)**




**Cwestiwn 7 – I ba raddau yr ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad hwn:**

***"Mae'r hyn sy'n cael ei ddysgu yn yr ysgol neu'r coleg ar hyn o bryd yn ddigonol, neu wedi bod yn ddigonol, o ran fy mharatoi ar gyfer bywyd a dod o hyd i swydd"***

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 1,120*

- Cytuno'n gryf: **6.16% (69)**
- Cytuno: **29.46% (330)**
- Niwtral: **39.46% (442)**
- Anghytuno: **18.66% (209)**
- Anghytuno'n gryf: **6.25% (70)**



## Sylwadau


- Roedd 9 o'r bobl ifanc yn dadlau mai dim ond dysgu sut i basio arholiadau y maen nhw ar hyn o bryd, yn hytrach na pharatoi ar gyfer bywyd a dod o hyd i swydd;
- Roedd 15 o'r ymatebwyr yn teimlo y gellid gwneud rhagor i wella'r hyn sy'n cael ei addysgu yn yr ysgol neu'r coleg ar hyn o bryd i'w helpu i baratoi ar gyfer yr hyn a wnânt yn y dyfodol;
- Dywedodd 331 o'r bobl ifanc eu bod yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer eu bywyd a dod o hyd i swydd. Roedd y rhesymau hyn yn cynnwys cael y sgiliau angenrheidiol y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt mewn ymgeiswyr posibl, a'r cymwysterau gofynnol i ddilyn cyrsiau addysg bellach neu addysg uwch;
- Dywedodd 406 o'r ymatebwyr nad oeddent yn teimlo eu bod wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer eu bywyd a dod o hyd i swydd. Dywedodd yr ymatebwyr nad oeddent wedi cael unrhyw help ymarferol o gwbl o ran cyflawni'r amcanion hyn, sydd yn aml yn cynnwys ysgrifennu CV a llythyrau eglurhaol, gwneud ceisiadau neu reoli ariannol syml.

  Wrth ateb y cwestiwn hwn, llythrennedd ariannol oedd y sgìl yr oedd yr ymatebwyr yn gweld ei eisiau fwyaf, a byddent wedi hoffi dysgu rhagor am forgeisi, cynilion, buddsoddiadau a sut i agor cyfrif banc.

**Cwestiwn 8 – A yw'n bwysig bod darpar gyflogwyr, colegau a phrifysgolion mewn rhannau eraill o'r DU a gweddill y byd yn parchu a gwerthfawrogi'r cymwysterau y mae pobl ifanc yng Nghymru yn eu hennill?**

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 1,100*


- Eithriadol o bwysig: **48.45% (533)**
- Pwysig: **40.63% (447)**
- Gweddol bwysig: **8.72% (96)**
- Nid yw'n bwysig iawn: **2.18% (24)**



### Cwestiwn 9 - A ydych chi'n meddwl y byddwch am astudio neu weithio y tu allan i Gymru yn y dyfodol?

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 1,103*


- Byddaf: **53.03% (585)**
- Na fyddaf: **13.05% (155)**
- Ddim yn gwybod: **33.63% (371)**
- Rwyf yn astudio neu'n gweithio y tu allan i Gymru ar hyn o bryd: **0.27% (3)**




### Sylwadau

- Dywedodd 214 o'r bobl ifanc y byddent yn hoffi astudio neu weithio y tu allan i Gymru, boed yn y DU neu dramor;
- Roedd 17 o'r ymatebwyr yn teimlo bod y penderfyniad hwn yn dibynnu ar eu graddau terfynol;
- Dywedodd 81 o'r bobl ifanc y byddent yn hoffi aros yng Nghymru i weithio a / neu astudio;
- Roedd 284 o'r bobl ifanc yn teimlo y byddai'n rhaid iddynt weithio a / neu astudio y tu allan i Gymru am fod rhagor o gyfleoedd gwaith a sefydliadau academaidd gwell;
- Dywedodd 22 o'r ymatebwyr a oedd yn siarad Cymraeg eu bod am aros yng Nghymru, ond yn teimlo bod yn rhaid iddynt adael oherwydd y cyfleoedd gwaith sydd ar gael iddynt;
- Dywedodd 6 o'r bobl ifanc mai dim ond y tu allan i Gymru yr oedd y cyrsiau yr oeddent am eu hastudio yn y brifysgol / coleg ar gael.

## Cwestiwn 10 - A oes sylwadau eraill gennych am y cwricwlwm ac am gymwysterau yng Nghymru?



**Cwestiwn 11- Beth yw cod post eich cartref?**

*Cyfanswm nifer yr ymatebion: 754*

CF: **40% (299)** *(Canol De Cymru)*

CH: **1.48% (11)** *(Gogledd Cymru)*

LL: **23.6% (178)** *(Gogledd Cymru / Canolbarth a Gorllewin Cymru)*

LD: **0.79% (6)** *(Canolbarth a Gorllewin Cymru)*

NP: **1.72% (13)** *(Dwyrain De Cymru)*

SA: **33% (247)** *(Dwyrain De Cymru)*

SY: **3.05 (23)** *(Canolbarth a Gorllewin Cymru)*

